# Crynodeb o’r gwobrau



## GWOBR EFYDD



Mae bron pawb yng nghymuned yr ysgol yn deall yr amcanion ac yn ymwybodol o weledigaeth y Siarter Iaith. Mae'r ysgol wedi adeiladu sylfaen a mecanwaith cryf ar gyfer gweithredu'r Siarter sy'n cynnwys rhanddeiliaid ar draws cymuned yr ysgol. Mae'r ysgol wedi llunio cynllun gweithredu addas ac yn dechrau gweld effaith y gweithredu yn yr amcanion.

## GWOBR ARIAN



Mae bron pawb o gymuned yr ysgol yn deall pam y gweithredir y Siarter. Mae'r staff cyfan yn rhan o'r cynllunio, gweithredu a'r monitro. Mae cymuned yr ysgol yn medru cynllunio gweithredoedd addas mewn ymateb i ganlyniadau'r holiaduron ac yn medru mesur llwyddiant a chynnydd y gweithredoedd yma. Mae dysgwyr, gyda chymorth, yn arwain gweithredoedd yn llwyddiannus. Mae bron pawb yng nghymuned yr ysgol wedi datblygu ymdeimlad o falchder yn eu hunaniaeth Gymreig ac wedi magu brwdfrydedd dros yr iaith. Mae gweithredoedd yn dechrau cael effaith ar arfer amser hamdden y dysgwyr e.e. dewis defnyddio apiau, teledu, chwaraeon a gweithgareddau cymdeithasol ayb. Ceir ethos Cymraeg a Chymreig o fewn yr ysgol.

## GWOBR AUR



Mae cymuned yr ysgol gyfan yn llysgenhadon dros y Gymraeg a’i defnydd ac yn hyrwyddo nodau’r Siarter Iaith yn llwyddiannus i wireddu gweledigaeth yr ysgol. Mae holl rhanddeiliaid yr ysgol yn allweddol wrth gynllunio, gweithredu a monitro’r Siarter Iaith. Mae cymuned yr ysgol gyfan yn gallu cynllunio camau gweithredu hynod effeithiol mewn ymateb i ganlyniadau holiadur blynyddol. Mae bron pob un o’r staff yn gallu mesur llwyddiant a chynnydd yn llwyddiannus a chymryd y camau angenrheidiol i wireddu’r weledigaeth. Mae dysgwyr yn cefnogi eu cyfoedion yn llwyddiannus trwy arwain ystod eang o fentrau.